# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

**Pleidleisiau a Thrafodion (223)**

**Dyddiad: Dydd Mercher 20 Hydref 2010**
**Amser: 13.30**

## Eitem 1: Cynnig i gymeradwyo gwelliannau dros dro i Reol Sefydlog 27 ynghylch amserlen y gyllideb flynyddol

**NDM4561 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 35.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2010; a

2. Yn cymeradwyo’r newidiadau i’r Rheolau Sefydlog a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

……………………………………

**13.30**
## Eitem 2: Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1, 2 a 9 yn ôl. Cafodd cwestiwn 7 ei ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

……………………………………

**14.04**
## Eitem 3: Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2a 7 a 5 a 10 eu grwpio i’w hateb. Tynnwyd cwestiwn 4 a 9 yn ôl.

……………………………………

**14.40**
**Cwestiwn Brys**

**Rhodri Glyn Thomas**
Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â chyllido S4C?

……………………………………

**15.02**
## Eitem 4: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Randiroedd yng Nghymru

**NDM4562 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Ddarparu Rhandiroedd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2010.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

........................................

**15.38**
## Eitem 5: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, 'Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13'

**NDM4564 Gareth Jones (Aberconwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, 'Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2010.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

........................................

**16.21**
## Eitem 6: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4563 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn mynegi pryder nad yw Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni'r ymrwymiadau a amlinellir yn agenda 'Cymru'n Un'.

Mae modd gweld y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd drwy fynd i:

http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/tacklingchange/strategy/walesstrategy/?skip=1&lang=cy

Mae modd gweld agenda Cymru'n Un drwy fynd i:

http://cymru.gov.uk/about/programmeforgovernment/1wales/?skip=1&lang=cy

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 31 | 44 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Chynlluniau Cyflawni Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n amlinellu sut bydd Cymru'n cymryd camau mewn sectorau penodol fel trafnidiaeth, tai preswyl, gwastraff ac amaethyddiaeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan 3% o flwyddyn i flwyddyn.

Yn croesawu cyfraniad traws-sector a hollbleidiol y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd, sydd wedi gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth i ddatblygu'r Strategaeth a'i chymeradwyo'n derfynol.

Mae modd gweld y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynlluniau Cyflawni drwy fynd i :

http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/tacklingchange/strategy/walesstrategy/?skip=1&lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 13 | 44 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes dangosyddion perfformiad amlwg er mwyn mesur cyflawniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn y targedau yn y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **13** | **0** | **31** | **44** |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Chynlluniau Cyflawni Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n amlinellu sut bydd Cymru'n cymryd camau mewn sectorau penodol fel trafnidiaeth, tai preswyl, gwastraff ac amaethyddiaeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan 3% o flwyddyn i flwyddyn.

Yn croesawu cyfraniad traws-sector a hollbleidiol y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd, sydd wedi gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth i ddatblygu'r Strategaeth a'i chymeradwyo'n derfynol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **33** | **11** | **0** | **44** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**........................................**

## 17.17
## Cyfnod pleidleisio

**........................................**

## 17.19
## Eitem 7: Dadl fer

**NDM4560 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):**

Cosbau Llym yng nghyswllt grantiau Amaethyddol Ewropeaidd

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.49.**

........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 2 Tachwedd 2010**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**